

**Adolygiadau Cymunedol o dan
Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)
(Cymru)
2025 – Adroddiad Argymhellion Terfynol**

Rhagair

Argymhellion Terfynol ar gyfer Cymunedau Cyngor Sir y Fflint

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ein cynigion drafft ar gyfer cymunedau Sir y Fflint. Cynhaliwyd yr adolygiad yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a Chylch Gorchwyl y Cyngor.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ein hargymhellion terfynol ar gyfer cymunedau Sir y Fflint. Yn unol â'n rhwymedigaethau statudol, rydym hefyd wedi ystyried datblygiadau'r dyfodol ac wedi cael amcanestyniadau pum mlynedd o nifer yr etholwyr.

Wrth lunio'r argymhellion terfynol hyn, rydym wedi ystyried cysylltiadau lleol a barn y rhai sy'n dadlau dros gadw'r ffiniau presennol. Rydym wedi adolygu pob un o'r sylwadau a gyflwynwyd yn ofalus. Fodd bynnag, roedd rhaid pwyso a mesur yr ystyriaethau hyn yn erbyn cyfyngiadau a ffactorau statudol eraill, yn enwedig yr angen i sicrhau bod cymunedau'n parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol a chefnogi trefniadau llywodraethu effeithiol a chyfleus. Pan gynigir newidiadau i ffiniau cymuned neu ward, mae'r Cyngor hefyd wedi ystyried pwysigrwydd cydraddoldeb etholiadol a thegwch democrataidd i bob etholwr.

Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r Cynghorau Tref a Chymuned, yn ogystal â'r unigolion a'r sefydliadau a gyflwynodd sylwadau. Rydym yn croesawu unrhyw adborth neu safbwyntiau yr hoffech chi eu rhannu mewn perthynas â'r cynigion drafft hyn.

Adroddiad Cynigion Drafft ac Argymhellion Terfynol

Cynnwys

1.	Crynodeb o'r Cynigion Drafft ac Argymhellion Terfynol	1
2.	Maint y Cyngor	1
3.	Cynnal yr Adolygiad	2
4.	Ystyried Cyflwyniadau	2
5.	Cynigion Drafft	3 - 30
6.	Ymatebion i'r Adroddiad	31
7.	Atodiad un - Mapiau'n dangos y Ffiniau Newydd	32 - 36

1. Crynodeb o'r Cynigion Drafft ac Argymhellion Terfynol

- 1.1 Fel prif Gyngor, mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnal Adolygiadau Cymunedau dan adrannau 25 a 31 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("y Ddeddf"). Mae Cylch Gorchwyl yr adolygiad i'w weld ar wefan y Cyngor.
- 1.2 Mae Sir y Fflint wedi ystyried a oes angen gwneud diwygiadau i strwythur cymunedau a wardiau cymunedol er mwyn sicrhau bod. Dyma'r argymhellion terfynol bellach, sydd wedi'u cyflwyno i'r Cyngor i'w hystyried.
- 1.3 Mae'r Cyngor wedi cynnig diwygiadau i ffiniau dwy ward Cyngor tref o fewn tref Cei Connah, a hoffai dderbyn rhagor o sylwadau ynghylch y cynigion sydd wedi'u gwneud gan Gyngor Cymuned Cilcain, Cyngor Cymuned Pen-y-ffordd a Chynghorydd Sir Treuddyn.
- 1.4 Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnig diwygiadau i'r trefniadau etholiadol (h.y. nifer y cynghorwyr fesul ward) ar gyfer Cyngor Tref y Fflint, Cyngor Cymuned Penarlâg a Chyngor Cymuned Sealand a hoffai dderbyn rhagor o sylwadau mewn perthynas â'r gwahanol ddewisiadau a nodwyd ar gyfer Cyngor Cymuned Bagillt a Chyngor Tref Saltney.
- 1.5 Mae'r Cyngor yn argymell gwelliannau i ffiniau dwy ward cyngor tref o fewn tref Cei Connah, y ffin rhwng Cyngor Cymuned Cilcain a Chyngor Cymuned Y Waun a Phantymwyn a'r ffin rhwng Cyngor Tref Bwcle a Chyngor Cymuned Penyffordd.

Mae'r Cyngor hefyd yn argymell gwelliannau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Cymuned Bagillt, Cyngor Tref y Fflint a Chyngor Tref Saltney.

2. Maint y Cyngor

- 2.1 Mae'r tabl isod yn dangos y gymhareb o Gynghorwyr i etholwyr ar gyfer maint y Cyngor Tref/ Cymuned i'w ddefnyddio fel canllaw hyblyg:

Nifer yr Etholwyr	Dyraniad Cynghorwyr a Awgrymir	Nifer yr Etholwyr	Dyraniad Cynghorwyr a Awgrymir
0 -299	7	2000 – 3999	13
300 – 499	8	4000 – 5999	14
500 – 749	9	6000 – 8999	15
750 – 999	10	9000 – 11,999	16
1000 – 1499	11	12,000 +	17 - 20
1500 – 1999	12		

3. Cynnal yr Adolygiad

3.1 Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cynnal ymgynghoriad helaeth:

- Yn ceisio barn ac argymhellion cyngorau tref a chymuned, Aelodau Cyngor Sir y Fflint, Aelodau Seneddol, Aelodau o'r Senedd ac aelodau o'r cyhoedd.
- Mae Cyngor Sir y Fflint wedi hyrwyddo'r adolygiad hwn ar wefan y Cyngor ac wedi rhoi'r hysbysiadau cyhoeddus perthnasol i glerc pob Cyngor Tref a Chymuned, er mwyn hysbysebu'r adolygiad yn y cymunedau lleol.

Budd-ddeiliaid:

Preswylwyr Sir y Fflint
Cyngorau Tref a Chymuned
Aelodau Cyngor Sir y Fflint
Becky Gittins, AS
Mark Tami, AS
Jack Sargeant, AoS
Hannah Blythyn, AoS
Llŷr Gruffydd, AoS
Mark Isherwood, AoS
Samuel Rowlands, AoS
Carolyn Thomas, AoS

3.2 Cytunodd y Cyngor ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad ar 2 Gorffennaf 2025.

4. Ystyried Cyflwyniadau

4.1 Cafwyd cyflwyniadau gan y canlynol:

- 28 Cyngor Tref a Chymuned
- 4 Cynghorydd Tref a Chymuned
- 20 Aelod o'r Cyhoedd
- 1 Blaid Wleidyddol Leol

Yn ystod ail gam yr ymgynghoriad, cafwyd cyflwyniadau gan y canlynol:

- 9 Cyngor Tref a Chymuned
- 3 Cynghorydd Sir
- 1 Cynghorydd Tref a Chymuned
- 6 Aelod o'r cyhoedd

4.2 Mae'r holl sylwadau wedi'u cyflwyno ar wefan y Cyngor.

5. Cynigion Drafft ac Argymhellion Terfynol

5.1 Cyngor Cymuned Argoed

Mae'r trefniadau cymunedol presennol yn Argoed yn cynnwys dwy ward: Argoed a New Brighton. Mae gan y gymuned gyfanswm o 4,643 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 14 o gynghorwyr cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Gymunedol	Nifer yr etholwyr ar hyn o bryd	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Argoed	2,163	2,253	7
New Brighton	2,480	2,699	7
Cyfanswm	4,643	4,952	14

Sylwadau

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

Ffin ward gymunedol a gynigir

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin y ward gymunedol.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw'r enw cymunedol Cymraeg/Saesneg, Argoed. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig Pentre Cythrel fel yr enw Cymraeg ar gyfer New Brighton.

Argymhellion terfynol

Ni chafodd y Cyngor unrhyw ymatebion pellach i'r cynigion drafft, ac mae'r cynigion uchod yn parhau heb eu newid.

5.2 Cyngor Cymuned Bagillt

Mae'r trefniadau cymunedol presennol ym Magillt yn cynnwys dwy ward: Dwyrain a Gorllewin. Mae gan y gymuned gyfanswm o 3,111 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 14 o gynghorwyr cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Gymunedol	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Dwyrain	1,442	1,455	7
Gorllewin	1,669	1,682	7
Cyfanswm	3,111	3,137	14

Sylwadau

Derbyniodd y Cyngor dri sylw ynglŷn â chymuned Bagillt. Roedd un sylw gan Gyngor Cymuned Bagillt a dau sylw gan aelodau o'r Cyngor Cymuned. Bydd y sylwadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ffin ward gymunedol a gynigir

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin y ward gymunedol.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

Mae'r Cyngor yn croesawu sylwadau ar y ddau ddewis canlynol:

1. Mae'r Cyngor yn cynnig y dylid cael gwared ar drefniadau wardio'r Cyngor Cymuned. Byddai hyn yn dilyn trefniadau wardio'r Prif Gyngor.
2. Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned.

Mae'r Cyngor yn cynnig nad oes unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i nifer y cynghorwyr cymuned.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw'r enw cymunedol Cymraeg/Saesneg, Bagillt.

Argymhellion terfynol

Cafodd y Cyngor un sylw pellach gan Gyngor Cymuned Bagillt. Mae'r Cyngor yn argymhell y dylid dileu trefniadau wardiau'r Cyngor Cymuned. Byddai hyn yn dilyn trefniadau wardio'r Prif Gyngor.

5.3 Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton

Mae'r trefniadau cymunedol presennol ym Mrychdyn a Bretton yn cynnwys dwy ward: Gogledd-ddwyrain a De. Mae gan y gymuned gyfanswm o 5,162 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 14 o gynghorwyr cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Gymunedol	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Gogledd-ddwyrain	1,756	1,769	5
De	3,406	3,432	9
Cyfanswm	5,162	5,201	14

Sylwadau

Derbyniodd y Cyngor un sylw ynglŷn â chymuned Brychdyn a Bretton. Roedd y sylw hwn gan aelod o'r cyhoedd. Caiff y sylw ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ffin ward gymunedol a gynigir

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin y ward gymunedol.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw'r enw cymunedol Cymraeg, Brychdyn a Bretton a'r enwau cymunedol Saesneg, Broughton a Bretton.

Argymhellion terfynol

Cafodd y Cyngor un sylw pellach gan Gyngor Cymuned Brychdyn a Bretton i'r cynigion drafft, ac mae'r cynigion uchod yn parhau heb eu newid.

5.4 Cyngor Cymuned Brynffordd

Mae gan y gymuned gyfanswm o 834 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 10 o gynghorwyr cymuned. Mae nifer yr etholwyr a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Cymuned	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Brynffordd	834	847	10
Cyfanswm	834	847	10

Sylwadau

Derbyniodd y Cyngor un sylw ynglŷn â chymuned Brynffordd. Roedd y sylw hwn gan y Cyngor Cymuned. Caiff y sylw ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ffin ward gymunedol a gynigir

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin y ward gymunedol.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw'r enw cymunedol Cymraeg, Brynffordd a'r enw cymunedol Saesneg, Brynford.

Argymhellion terfynol

Ni chafodd y Cyngor unrhyw ymatebion pellach i'r cynigion drafft, ac mae'r cynigion uchod yn parhau heb eu newid.

5.5 Cyngor Tref Bwcle

Mae trefniadau presennol tref Bwcle yn cynnwys pedair ward: Dwyrain Bistre, Gorllewin Bistre, Mynydd a Phentrobin. Mae gan y dref gyfanswm o 12,713 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 20 o gynghorwyr tref. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward y Dref	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Dwyrain Bistre	3,376	3,412	5
Gorllewin Bistre	3,179	3,515	5
Mynydd	2,028	2,129	3
Pentrobin	4,130	4,166	7
Cyfanswm	12,713	13,222	20

Sylwadau

Derbyniodd y Cyngor bedwar sylw ynglŷn â thref Bwcle. Roedd un sylw gan Gyngor tref Bwcle a thri sylw gan aelodau o'r cyhoedd. Bydd y sylwadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ffin ward y dref a gynigir

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin ward y dref.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Tref

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol y Cyngor Tref.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw enw Cymraeg y dref, Bwcle ac enw Saesneg y dref, Buckley.

Argymhellion terfynol

Cafodd y Cyngor ddau sylw pellach. Un gan Gyngor Tref Bwcle ac un gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y sylwadau'n ymwneud â Little Mountain Road ac mae'r Cyngor yn argymhell bod y ffin allanol yn cael ei diwygio fel y dangosir ar y map yn Atodiad un. Mae hyn yn diwygio'r ffin allanol rhwng Cyngor Cymuned Penyffordd a Chyngor Tref Bwcle – ward Dwyrain Bistre.

Newidiadau Canlyniadol – Trefniadau ward etholiadol y prif gyngor

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.

O ganlyniad i'r newid a argymhellwyd i ffiniau'r cymunedau, mae'r Cyngor yn argymhell bod yr un newidiadau'n cael eu cymhwyso i wardiau etholiadol presennol Penyffordd a Bwcle: Dwyrain Bistre.

5.6 Cyngor Tref Caerwys

Mae gan y dref gyfanswm o 1,047 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 11 o gynghorwyr tref. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Tref	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Caerwys	1,047	1,167	11
Cyfanswm	1,047	1,167	11

Sylwadau

Derbyniodd y Cyngor un sylw ynglŷn â thref Caerwys. Roedd y sylw hwn gan y Cyngor Tref. Caiff y sylw ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ffin ward y dref a gynigir

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin ward y dref.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Tref

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol y Cyngor Tref.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw enw Cymraeg/Saesneg y dref, Caerwys.

Argymhellion terfynol

Ni chafodd y Cyngor unrhyw ymatebion pellach i'r cynigion drafft, ac mae'r cynigion uchod yn parhau heb eu newid.

5.7 Cyngor Cymuned Cilcain

Mae'r trefniadau cymunedol presennol yng Nghilcain yn cynnwys dwy ward: Cilcain a Rhydymwyn. Mae gan y gymuned gyfanswm o 1,174 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 12 o gynghorwyr cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Gymunedol	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Cilcain	637	639	6
Rhydymwyn	537	539	6
Cyfanswm	1,174	1,178	12

Sylwadau

Derbyniodd y Cyngor un sylw ynglŷn â chymuned Cilcain. Roedd y sylw hwn gan y Cyngor Cymuned. Caiff y sylw ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ffin ward gymunedol a gynigir

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin y ward gymunedol.

Ond, mae'n croesawu rhagor o sylwadau ynghylch y cynnig canlynol gan Gyngor Cymuned Cilcain.

A -Mae'r Cyngor yn mynnu y dylai'r wyth eiddo a restrir isod, sy'n agos (0.25 milltir) at bentref Rhydymwyn, fod yn rhan o Ward Rhydymwyn, Cyngor Cymuned Cilcain. Mae'r eiddo hyn gryn bellter i ffwrdd (1.5 milltir) o bentref Pantymwyn:

Tros yr Afon
Tros yr Afon Cottage
Rose Cottage
Twmpath Top
Twmpath Cottage
Alyn View
Twmpath Barn
Bodlonddeb

Mae'r preswylwyr sy'n byw yn yr wyth eiddo yma yn ymwneud llawer â gweithgareddau cymdeithasol a grwpiau pentref Rhydymwyn, megis Grŵp Rhybudd Llifogydd Rhydymwyn a Grŵp Gweithredu Rhydymwyn a Hendre.

B - Mae'r anghydfod hynod ddadleuol diweddar ynghylch gosod cyfleuster treulio anaerobig ar y safle a nodir gyda chroeslinellau glas ar y cynllun sydd ynghlwm yn dangos yr angen i'r tir hwn fod o fewn ffin Ward Cilcain (Rhydymwyn). Mae'r tir wedi'i ddynodi ar gyfer defnydd diwydiannol. Mae ar ffin pentref Rhydymwyn (0.2 milltir), ac mae'n effeithio ar breswylwyr pentref Rhydymwyn, ond nid yw'n effeithio ar breswylwyr pentref Rhosesmor sy'n byw'r ochr arall i'r mynydd (0.75 milltir i ffwrdd). Felly, mae Cyngor Cymuned Cilcain yn gofyn am ddiwygio ffin y Ward yn unol â hynny.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw'r enw cymunedol Cymraeg/Saesneg, Cilcain.

Argymhellion terfynol

Cafodd y Cyngor bum sylw pellach. Un gan Gyngor Cymuned Cilcain, dau gan aelodau'r cyhoedd a dau gan yr aelodau lleol. Fel rhan o sylwadau'r Cyngor Cymuned, arolygwyd trigolion y naw eiddo. Roedd wyth o'r naw eiddo o blaid y cynnig. Cafwyd un gwrthwynebiad i gynnig y Cyngor Cymuned. Mae'r Cyngor yn argymhell diwygio'r ffin allanol fel y dangosir ar y map yn atodiad un. Mae hyn yn diwygio'r ffin rhwng ward Rhydymwyn o Gyngor Cymuned Cilcain a ward Pantymwyn o Gyngor Cymuned Y Waun a Phantymwyn.

Newidiadau Canlyniadol – Trefniadau ward etholiadol y prif gyngor

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.

O ganlyniad i'r newid a argymhellwyd i ffiniau'r cymunedau, mae'r Cyngor yn argymhell bod yr un newidiadau'n cael eu cymhwyso i wardiau etholiadol presennol Y Waun a Phantymwyn a Chilcain.

5.8 Cyngor Tref Cei Connah

Mae trefniadau presennol tref Cei Connah yn cynnwys pedair ward: Canol, Golftyn, De, Gwepa. Mae gan y dref gyfanswm o 12,753 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 20 o gynghorwyr tref. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward y Dref	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Canol	3,551	3,587	5
Golftyn	3,801	4,139	6
De	3,666	3,702	6
Gwepa	1,735	1,771	3
Cyfanswm	12,753	13,199	20

Sylwadau

Derbyniodd y Cyngor bedwar sylw ynglŷn â thref Cei Connah. Roedd un sylw gan y Cyngor Tref, un sylw gan Gynghorydd Tref a dau sylw gan aelodau o'r cyhoedd. Bydd y sylwadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ffin ward y dref a gynigir

Mae'r Cyngor yn cynnig symud yr eiddo canlynol o ward Golftyn i'w ward Ganol.

14, 16, 18, 20, 22, 24, 26, 28, 30, 32, 34, 36, 38, 40, 42, 44, 46, 48 a 50
Hillside Avenue

1, 3, 5, 7 a 9 River View.

Byddai hyn yn sicrhau na fyddai strydoedd yn cael eu rhannu rhwng dwy ward wahanol, fel yr anghysondeb a gafwyd yn dilyn adolygiad etholiadol diwethaf Cyngor Sir y Fflint.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Tref

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol y Cyngor Tref.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw enw Cymraeg y dref, Cei Connah ac enw Saesneg y dref Connah's Quay.

Argymhellion terfynol

Ni dderbyniodd y Cyngor unrhyw ymatebion pellach i'r cynigion drafft, ac mae'r cynigion uchod yn parhau heb eu newid. Mae'r Cyngor yn argymhell bod y ffin fewnol yn cael ei diwygio fel y dangosir ar y map yn atodiad un. Mae hyn yn diwygio'r ffin fewnol rhwng wardiau Canol a Golftyn.

Newidiadau Canlyniadol – Trefniadau ward etholiadol y prif gyngor

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried y newidiadau canlyniadol i wardiau etholiadol y prif gyngor a fyddai'n digwydd yn dilyn yr argymhellion hyn.

O ganlyniad i'r newid a argymhellwyd i ffiniau'r cymunedau, mae'r Cyngor yn argymhell bod yr un newidiadau'n cael eu cymhwyso i wardiau etholiadol presennol Cei Conna: Golftyn a Chanol Cei Conna

5.9 Cyngor Tref y Fflint

Mae trefniadau presennol tref y Fflint yn cynnwys pedair ward: Y Castell, Cynswllt, Oakenholt a Threlawny. Mae gan y dref gyfanswm o 10,453 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 15 o gynghorwyr tref. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward y Dref	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Y Castell	1,698	1,734	3
Cynswllt	3,037	3,330	5
Oakenholt	2,560	2,596	3
Trelawny	3,158	3,325	4
Cyfanswm	10,453	10,985	15

Sylwadau

Derbyniodd y Cyngor dri sylw ynglŷn â thref y Fflint. Roedd un sylw gan y Cyngor Tref ac un sylw gan aelodau o'r cyhoedd. Bydd y sylwadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ffin ward y dref a gynigir

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin ward y dref.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Tref

Mae'r Cyngor yn cynnig y newidiadau a ganlyn i drefniadau etholiadol y Cyngor Tref –

Ward y Dref	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Y Castell	1,698	1,734	3
Cynswllt	3,037	3,330	5
Oakenholt	2,560	2,596	3
Trelawny	3,158	3,325	5
Cyfanswm	10,453	10,985	16

Dyma'r dyraniad a awgrymir ar gyfer nifer y cynghorwyr yn seiliedig ar nifer yr etholwyr.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw enw Cymraeg y dref, Y Fflint ac enw Saesneg y dref, Flint.

Argymhellion terfynol

Cafodd y Cyngor un sylw pellach gan Gyngor Tref y Fflint i'r cynigion drafft, ac mae'r cynigion uchod yn parhau heb eu newid.

5.10 Cyngor Cymuned y Waun

Mae'r trefniadau cymunedol presennol yn y Waun a Phantymwyn yn cynnwys dwy ward: Y Waun a Phantymwyn. Mae gan y gymuned gyfanswm o 1,609 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 12 o gynghorwyr cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Gymunedol	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Y Waun	795	797	6
Pantymwyn	814	816	6
Cyfanswm	1,609	1,613	12

Sylwadau

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

Ffin ward gymunedol a gynigir

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin y ward gymunedol.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw'r enwau cymunedol Cymraeg, Y Waun a Phantymwyn a'r enwau cymunedol Saesneg, Gwernaffield a Phantymwyn .

Argymhellion terfynol

Ni chafodd y Cyngor unrhyw ymatebion pellach i'r cynigion drafft, ac mae'r cynigion uchod yn parhau heb eu newid.

5.11 Cyngor Cymuned Gwernymynydd

Mae gan y gymuned gyfanswm o 924 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 11 o gynghorwyr cymuned. Mae nifer yr etholwyr a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Cymuned	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Gwernymynydd	924	948	11
Cyfanswm	924	948	11

Sylwadau

Derbyniodd y Cyngor un sylw ynglŷn â chymuned Gwernymynydd. Roedd y sylw hwn gan y Cyngor Cymuned. Caiff y sylw ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ffin ward gymunedol a gynigir

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin y ward gymunedol.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw'r enw cymunedol Cymraeg/Saesneg, Gwernymynydd.

Argymhellion terfynol

Ni chafodd y Cyngor unrhyw ymatebion pellach i'r cynigion drafft, ac mae'r cynigion uchod yn parhau heb eu newid.

5.12 Cyngor Cymuned Helygain

Mae'r trefniadau cymunedol presennol yn Helygain yn cynnwys dwy ward: Mynydd Helygain a Phentre Helygain. Mae gan y gymuned gyfanswm o 2,314 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 13 o gynghorwyr cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Gymunedol	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Mynydd Helygain	1,418	1,429	8
Pentre Helygain	896	898	5
Cyfanswm	2,314	2,327	13

Sylwadau

Derbyniodd y Cyngor un sylw ynglŷn â chymuned Helygain. Roedd y sylw hwn gan y Cyngor Cymuned. Caiff y sylw ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ffin ward gymunedol a gynigir

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin y ward gymunedol.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw enw Cymraeg y dref, Helygain ac enw Saesneg y dref, Halkyn.

Argymhellion terfynol

Ni chafodd y Cyngor unrhyw ymatebion pellach i'r cynigion drafft, ac mae'r cynigion uchod yn parhau heb eu newid.

5.13 Cyngor Cymuned Penarlâg

Mae'r trefniadau cymunedol presennol ym Mhenarlâg yn cynnwys tair ward: Aston, Ewloe a Mancot. Mae gan y gymuned gyfanswm o 11,200 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 21 o gynghorwyr cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward Gymunedol	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Aston	3,291	3,317	7
Ewloe	4,476	4,983	7
Mancot	3,433	3,928	7
Cyfanswm	11,200	12,228	21

Sylwadau

Derbyniodd y Cyngor dri sylw ynglŷn â chymuned Penarlâg. Roedd un sylw gan y Cyngor Cymuned, un sylw gan Gynghorydd Cymuned ac un sylw gan aelod o'r cyhoedd. Bydd y sylwadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ffin ward gymunedol a gynigir

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin y ward gymunedol.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

Mae'r Cyngor yn cynnig y newidiadau a ganlyn i drefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned –

Ward Gymunedol	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Aston	3,291	3,317	6
Ewloe	4,476	4,983	7
Mancot	3,433	3,928	7
Cyfanswm	11,200	12,228	20

Cynyddwyd nifer y cynghorwyr yn dilyn adolygiad etholiadol diwethaf Sir y Fflint gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Byddai hyn yn unol â'r dyraniad awgrymedig ac uchaf ar gyfer yr holl etholwyr.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw enw cymunedol Cymraeg, Penarlâg a'r enw cymunedol Saesneg, Hawarden.

Argymhellion terfynol

Cafodd y Cyngor un sylw pellach gan Gyngor Cymuned Penarlâg. Mae'r Cyngor yn argymhell bod y trefniadau etholiadol presennol yn parhau ar waith am y rhesymau a amlinellwyd gan y Cyngor Cymuned.

5.14 Cyngor Cymuned Kinnerton Uchaf

Mae gan y gymuned gyfanswm o 1,459 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 9 o gynghorwyr cymuned. Mae nifer yr etholwyr a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Cymuned	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Kinnerton Uchaf	1,459	1,472	9
Cyfanswm	1,459	1,472	9

Sylwadau

Derbyniodd y Cyngor un sylw ynglŷn â chymuned Kinnerton Uchaf. Roedd y sylw hwn gan y Cyngor Cymuned. Caiff y sylw ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ffin ward gymunedol a gynigir

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin y ward gymunedol.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw'r enw cymunedol Cymraeg, Kinnerton Uchaf a'r enw cymunedol Saesneg, Higher Kinnerton.

Argymhellion terfynol

Ni chafodd y Cyngor unrhyw ymatebion pellach i'r cynigion drafft, ac mae'r cynigion uchod yn parhau heb eu newid.

5.15 Cyngor Tref Treffynnon

Mae trefniadau presennol tref Treffynnon yn cynnwys pedair ward: Canol, Dwyrain, Maes-glas a Gorllewin. Mae gan y dref gyfanswm o 6,851 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 15 o gynghorwyr tref. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward y Dref	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Canol	1,574	1,705	3
Dwyrain	1,427	1,463	3
Maes-glas	2,009	2,045	5
Gorllewin	1,841	1,976	4
Cyfanswm	6,851	7,189	15

Sylwadau

Derbyniodd y Cyngor bedwar sylw ynglŷn â thref Treffynnon. Roedd un sylw gan y Cyngor Tref a thri sylw gan aelodau o'r cyhoedd. Bydd y sylwadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ffin ward y dref a gynigir

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin ward y dref.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Tref

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol y Cyngor Tref.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw enw Cymraeg y dref, Treffynnon ac enw Saesneg y dref, Holywell.

Argymhellion terfynol

Ni chafodd y Cyngor unrhyw ymatebion pellach i'r cynigion drafft, ac mae'r cynigion uchod yn parhau heb eu newid.

5.16 Cyngor Cymuned yr Hôb

Mae'r trefniadau cymunedol presennol yn yr Hôb yn cynnwys dwy ward: Yr Hôb a Chaergwrle. Mae gan y gymuned gyfanswm o 3,263 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 14 o gynghorwyr cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward y Dref	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Caergwrle	1,222	1,398	6
Yr Hôb	2,041	2,067	8
Cyfanswm	3,263	3,465	14

Sylwadau

Derbyniodd y Cyngor un sylw ynglŷn â chymuned yr Hôb. Roedd y sylw hwn gan y Cyngor Cymuned. Caiff y sylw ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ffin ward gymunedol a gynigir

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin y ward gymunedol.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw'r enw cymunedol Cymraeg, Yr Hôb a'r enw cymunedol Saesneg, Hope.

Argymhellion terfynol

Ni chafodd y Cyngor unrhyw ymatebion pellach i'r cynigion drafft, ac mae'r cynigion uchod yn parhau heb eu newid.

5.17 Cyngor Cymuned Coed-llai a Phontblyddyn

Mae'r trefniadau cymunedol presennol yng Nghoed-llai a Phontblyddyn yn cynnwys dwy ward: Coed-llai a Phontblyddyn. Mae gan y gymuned gyfanswm o 1,607 o etholwyr a chaiff ei chynrychioli gan 13 o gynghorwyr cymuned. Mae nifer yr etholwyr fesul ward a nifer y cynghorwyr fel a ganlyn:

Ward y Dref	Nifer yr Etholwyr	Amcanestyniad 5 mlynedd o nifer yr etholwyr	Nifer y Cynghorwyr
Coed-llai	1,364	1,433	11
Pontblyddyn	243	245	2
Cyfanswm	1,607	1,678	13

Sylwadau

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

Ffin ward gymunedol a gynigir

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i ffin y ward gymunedol.

Trefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned

Nid yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol y Cyngor Cymuned.

Enw Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw'r enwau cymunedol Cymraeg, Coed-llai a Phontblyddyn a chadw'r enwau cymunedol Saesneg, Leeswood a Phontblyddyn.

Argymhellion terfynol

